

Datganiad Ysgrifenedig ar y Cyd gan Gomisiynwyr Plant y DU – Diwrnod Chwarae 1af Awst 2018

Ar gyfer pen-blwydd y Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn 31, rydyn ni, Comisiynwyr Plant annibynnol Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, yn dod at ein gilydd i wneud y canlynol;

Dathlu hawl pob plentyn i chwarae o dan Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

ac

Annog pawb i chwarae eu rhan yn y gwaith o sicrhau ein bod ni'n creu'r cyfleoedd gorau posib i bob plentyn a pherson ifanc wneud yn fawr o'u hawl i chwarae.

Mae gan bob plentyn yr hawl i chwarae

Mae chwarae yn hwyl, yn ansicr, yn heriol, yn hyblyg ac yn amhosibl ei ragweld!

Mae Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn creu hawl benodol i bob plentyn gael gorffwys a hamdden, i gymryd rhan mewn chwarae a gweithgareddau hamdden priodol ar gyfer eu hoed, a chyfranogi'n rhydd ym meysydd diwylliant a'r celfyddydau.

Mae'r Confensiwn yn cydnabod bod yr elfennau hyn yn cyfoethogi profiadau plant ac yn agwedd hanfodol ar blentyndod.

Mae chwarae'n bwysig i blant ac mae manteision estynedig iddo

Mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthyn ni fod chwarae'n bwysig iddyn nhw. Mae'r hwyl a'r hapusrwydd a gânt wrth chwarae yn digwydd oherwydd mai nhw sy'n dewis beth i'w wneud a pha gyfeiriad i fynd iddo. Yr agwedd hon sy'n gwneud chwarae'n unigryw, yn arbennig ac yn wahanol i chwaraeon neu weithgareddau a drefnwyd, sydd â nod penodol mewn golwg.

Ond yn ogystal â bod yn hwyl, mae chwarae'n cynnig llawer mwy i blant. Mae o fudd i'w hiechyd a'u llesiant ac yn cyfrannu at wireddu cynifer o hawliau eraill. Mae'n rhoi cyfleoedd iddyn nhw ddysgu, bod yn actif yn gorfforol, datblygu eu sgiliau a'u hiechyd corfforol ac emosiynol, rhyddid mynegiant a chreu cyfeillgarwch.

Llais a dewis

Fel Comisiynwyr Plant, rydyn ni i gyd wedi cael y fraint o glywed gan blant am y cyfleoedd gwych maen nhw'n eu cael i chwarae a pheth o'r gwaith ardderchog sy'n digwydd i hybu a hwyluso chwarae ym mywyd y teulu a'r gymuned. Gwaetha'r modd, rydyn ni hefyd yn ymwybodol nad yw'r rhain ar gael i bawb. Dyma rai o'r rhesymau am hynny:

- mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod nhw ddim yn cael digon o amser oherwydd amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys gwaith ysgol;
- dyw'r manau awyr agored a'r rhai dan do ddim bob amser yn eu hannog nac yn eu galluogi i chwarae – mae hyn yn arbennig o wir yn achos plant ag anabledd, ond hefyd eraill, gan gynnwys plant hŷn;
- dyw pobl o'u cwmpas ddim bob amser yn rhoi'r caniatâd neu'r gefnogaeth angenrheidiol iddyn nhw.




Ar hyd amser, mae chwarae weithiau wedi cael ei wthio i'r cefndir gan agweddau eraill ar fywyd, ac mae hynny'n dal i ddigwydd mewn bywydau modern yn y Deyrnas Unedig, gan fod llawer o wahanol alwadau ar amser, adnoddau a hefyd yn sgîl dylanwad technoleg. Fel Comisiynwyr, rydyn ni'n gofyn i bob oedolyn helpu i sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

Rhaid annog pawb i wneud eu rhan a sicrhau ein bod ni'n creu'r cyfleoedd gorau posib i bob plentyn a pherson ifanc fwynhau eu hawl i chwarae.

Gan gadw hyn mewn cof, rydyn ni'n annog:

- Pob oedolyn i ystyried sut gallan nhw helpu plant a phobl ifanc ar draws y Deyrnas Unedig i gael amser, lle, caniatâd a chefnogaeth i chwarae, o fewn y teulu ac yn eu cymuned
- Sefydliadau i ystyried ydyn nhw'n gwneud popeth o fewn eu gallu i rymuso a chynnwys plant a phobl ifanc fel eu bod yn cael rhoi eu barn ar syniadau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu hawliau – gan gynnwys eu hawl i chwarae
- Llywodraethau ac asiantaethau statudol i fynd ati'n rhagweithiol i hybu a diogelu hawl plant i chwarae trwy ddarparu adnoddau digonol



Koulla Yiasouma, Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon



Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru



Bruce Adamson, Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc yr Alban



Anne Longfield OBE, Comisiynydd Plant Lloegr

Rhagor o wybodaeth:

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Plant Lloegr, Comisiynydd Plant yr Alban, Comisiynydd Plant a Phobl Ifanc Gogledd Iwerddon

Chwarae Cymru, Play England, Play Scotland, PlayBoard Northern Ireland

Y Gymdeithas Chwarae Ryngwladol

Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru

Adroddiad Sbotolau Erthygl 31: Comisiynydd Plant Cymru

O dan EMBARGO tan 00:01 01/08/2018

